Gofal Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Arolwg Gofalwyr Di-dâl Blynyddol Adroddiad 2021

Cyflwyniad

Diben yr arolwg oedd ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a chael eu barn a'u safbwyntiau am eu bywyd fel gofalwr di-dâl. Dyluniwyd yr arolwg i gasglu gwybodaeth gan ofalwyr di-dâl sy'n oedolion am eu profiadau gofalu i helpu i wella a datblygu gwasanaeth.

Nid yw nifer o bobl yn adnabod eu hunain fel gofalwr di-dâl. Mae gofalwr di-dâl yn unrhyw un sy'n gofalu yn ddi-dâl, yn rheolaidd, am berthynas, partner neu ffrind sy'n hŷn, sâl, bregus, anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Gallai gofalwyr di-dâl fod yn cefnogi perthynas neu ffrind sy'n cael gwasanaeth gofal cymdeithasol neu fe allant fod yn cefnogi rhywun nad ydynt yn cael unrhyw wasanaeth.

Ni chynhaliwyd yr arolwg hwn yn ystod 2020 oherwydd pandemig COVID-19 ac fe'i cynhaliwyd ddiwethaf yn 2019. Y newid mwyaf i'r gwasanaeth gofalwyr di-dâl ers 2019 yw bod Cyngor Wrecsam bellach yn cyllido Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) i ddarparu gwasanaethau gofalwyr di-dâl ar draws bwrdeistref Wrecsam.

Methodoleg yr Arolwg

Anfonwyd holiadur i 1,200 o ofalwyr di-dâl a oedd yn gofrestredig gyda GOGDdC trwy'r post ac fe'i cyhoeddwyd ar-lein hefyd, ar yr hwb ymgynghori 'Eich Llais' a'i gyhoeddi ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol (gwefan CBSW, Facebook a Twitter).

Roedd y ganran ymateb yn isel iawn, gyda 169 o ofalwyr di-dâl yn rhannu eu profiad a'u barn gyda ni. Nid yw hyn yn rhoi adlewyrchiad cywir o farn bob gofalwr di-dâl, a amcangyfrifir i fod yn 15,000 o ofalwyr di-dâl yn Wrecsam, a gofnodwyd yn y cyfrifiad poblogaeth diwethaf yn 2011.



Dysgu o'ch sylwadau, canmoliaethau a chwynion

"DYWEDOCH CHI, BYDDWN NI'N YMATEB"

Trwy ddweud wrthym beth yw eich barn, a rhannu eich profiadau gyda ni, gallwch ein helpu i wella gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr di-dâl yn eich cymuned leol.=

Yn dilyn yr arolwg a gwblhawyd yn 2021, canfuwyd nifer o heriau gan y gofalwyr di-dâl a ymatebodd. Bu i hyn amlygu meysydd ble roedd angen gwelliant, a beth sydd angen i ni, fel Awdurdod Lleol, ei wneud, i wella gwasanaethau i ofalwyr di-dâl yn Wrecsam.

Fe ddwedoch chi...	Byddwn yn gwneud y canlynol.
Dywedodd 66 o ofalwyr di-dâl wrthym nad oeddent wedi cael cynnig Asesiad o Anghenion Gofalwyr.	Rydym yn adnabod pwysigrwydd gofalwyr di-dâl yn cael Asesiad o Anghenion Gofalwyr i ganfod eu hanghenion cymorth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda GOGDdC, rydym yn eu hariannu i ddarparu gwasanaethau gofalwyr di-dâl ar draws Wrecsam, i sicrhau y cynigir Asesiad o Anghenion Gofalwyr ansoddol i bob gofalwr di-dâl ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cael eu hadnabod fel gofalwr di-dâl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda GOGDdC i wella hunan-adnabyddiaeth fel gofalwr di-dâl , o gofrestru fel gofalwr di-dâl, a chael cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr.
Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym nad oeddent wedi derbyn y cynnig o Asesiad o Anghenion Gofalwyr.	Byddwn yn sicrhau fod bob gofalwr di-dâl yn deall manteision cael Asesiad o Anghenion Gofalwyr, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i wella ansawdd eu profiad gofalu.
Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym na wrandawyd ar eu barn wrth drafod anghenion y sawl a ofalant amdanynt.	Rydym yn cydnabod pwysigrwydd teimlo fod pobl yn gwrando arnoch, a byddwn yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i ymgysylltu'n well gyda gofalwyr di-dâl trwy weithdai a fforymau gofalwyr di-dâl. Byddwn hefyd yn sicrhau fod ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant cadarn er mwyn i ofalwyr di-dâl deimlo bod eu barn yn cael ei ystyried wrth drafod anghenion yr unigolyn a ofalant amdanynt.
Dywedodd rhai gofalwyr di-dâl nad oedd Cyngor Wrecsam wedi helpu i wella ansawdd eu bywyd, a bod mynediad at gymorth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion dal ddim yn hawdd;	Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at gymorth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion a byddwn yn sicrhau bod ein staff hynod fedrus yn gallu cyfeirio gofalwyr di-dâl at y gwasanaeth cywir i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael yr arweiniad a'r gefnogaeth gywir a all helpu i wella eu lles a gwella ansawdd eu bywyd.

Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym na allant gael gwybodaeth gan Ofal Cymdeithasol Oedolion Wrecsam sy'n ddefnyddiol o ran bod yn ofalwr di-dâl, ac nid oeddent yn gwybod ble i fynd i gael y wybodaeth angenrheidiol.	Rydym yn cydnabod yr angen i wella yn y maes hwn, a byddwn yn gweithio gyda GOGDdC i sicrhau bod mwy o fforymau gwybodaeth i ofalwyr di-dâl yn cael eu cynnal ledled Wrecsam. Byddwn yn sicrhau bod ein Timau Gofal Cymdeithasol yn helpu pobl i adnabod pwy a beth yw gofalwr di-dâl, a sut y gallant gael gwybodaeth a chefnogaeth sy'n berthnasol i'w anghenion unigol.
Bu i rai gofalwyr di-dâl ddweud wrthym nad oeddent yn gwybod digon am daliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion.	Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r cynllun taliad uniongyrchol yn well i sicrhau fod gofalwyr di-dâl yn cael dewis a rheolaeth dros y gwasanaethau a gânt. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant cadarn i gyfleu'r dewisiadau sydd ar gael i chi i'ch galluogi i wneud dewisiadau gwybodus.
Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu cysylltiadau cymdeithasol, rhwydweithiau cefnogaeth cymdeithasol a pherthnasau eraill.	Rydym yn deall y swyddogaeth hanfodol mae gofalwyr di-dâl yn ei chwarae wrth gefnogi'r rhai a ofalir amdanynt. Rydym hefyd yn deall pwysigrwydd gofalwyr di-dâl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi eu hunain. Felly byddwn yn cydweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i sicrhau fod pob gofalwr di-dâl yn cael gwahoddiad i grwpiau, gweithgareddau a fforymau yn eu cymunedau i ryngweithio yn gymdeithasol gyda chyfoedion a staff cefnogi a dysgu am y gwahanol rwydweithiau cefnogi sydd ar gael iddynt.

Argymhellion:

Mae'r canfyddiadau yn yr arolwg hwn yn amlygu'r angen i Ofal Cymdeithasol CBSW fabwysiadu gwell systemau i godi ymwybyddiaeth am y diffiniad o beth, a phwy, sy'n ofalwr di-dâl, ac i ddeall eu profiadau er mwyn darparu'r gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir, ledled Wrecsam.

Wrth ystyried yr ymatebion uchod o Arolwg Gofalwyr Blynyddol Wrecsam, mae Gofal Cymdeithasol Wrecsam yn cydnabod fod yr agenda gofalwyr di-dâl yn flaenoriaeth uchel. Mewn ymateb, mae Cyngor Wrecsam wedi cael cyllid ac yn datblygu swydd newydd Swyddog Arweiniol Gofalwyr a fydd yn arwain wrth weithio'n agos gyda gofalwyr, sefydliadau a grwpiau cymunedol ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried mewn gwasanaethau cyfredol, ac wrth ddatblygu gwasanaethau'r dyfodol.

Mae CBSW wedi ymgynghori gyda nifer o ofalwyr di-dâl, a sefydliadau partner ar draws Wrecsam, ar beth sydd angen ei ystyried wrth ddatblygu'r swydd ddisgrifiad a manylion am yr unigolyn ar gyfer y swydd.

Os hoffech wneud awgrymiadau pellach ar gyfer newid a/neu welliannau, e-bostiwch ni; commissioning@wrexham.gov.uk.

Neu, ysgrifennwch atom: Y Tîm Comisiynu, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam LL13 8BG